OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3462 (Cy.307)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Rhagfyr 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Rhagfyr 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**2**) at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau canlynol yn cael eu llunio.

## RHAN 1

RHAGARWEINIAD

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ionawr 2008.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S.2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch nifer ac enwau Paneli Gwyddonol parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

ystyr "a fewnforir" ("*imported*") yw y deuir ag ef i Gymru o le arall heblaw rhan arall o Ynysoedd Prydain;

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr sydd i "*food authority*" yn rhinwedd adran 5(1A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**4**);

ystyr "awdurdod bwyd perthnasol" ("*relevant food authority*") yw'r awdurdod bwyd y mae amgylchiadau'n codi yn ei ardal sy'n arwain at rwymedigaeth o dan y Rheoliadau hyn i dalu tâl i'r awdurdod hwnnw;

mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 2406/96" ("*Regulation 2406/96*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*") a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*") yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn yr Atodlen;

mae i "cynhyrchion pysgodfeydd" yr ystyr a roddir i "*fishery products*" ym mhwynt 3.1 o Atodiad I i Reoliad 853/2004;

ystyr "cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol" ("*relevant fishery products*") yw cynhyrchion pysgodfeydd—

(a) a ddaliwyd yn eu hamgylchedd naturiol;

(b) a fewnforir gan lestr pysgota sy'n cyhwfan baner trydedd wlad;

(c) nad ydynt wedi bod ar dir cyn cael eu mewnforio; ac

(ch) a fwriedir i'w rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl;

ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol a mewnforion trydydd gwledydd;

ystyr "cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol" ("*relevant landed fishery products*") yw cynhyrchion pysgodfeydd —

(a) a gaiff eu glanio yng Nghymru;

(b) nad ydynt wedi bod ar dir yn flaenorol; ac

(c) a fwriedir i'w rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl,

ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol a mewnforion trydydd gwledydd;

mae'r ymadrodd "gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod" i'w ddehongli'n unol â'r ymadrodd "*first sale in a fish market*" yn Rheoliad 882/2004;

ystyr "gwerthwr" ("*vendor*")

(a) pan gaiff cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol eu rhoi gyntaf ar y farchnad neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod gan berson arall ar ran perchennog neu feistr llestr, yw'r person arall hwnnw; a

(b) pan gaiff cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol eu rhoi gyntaf ar y farchnad neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod mewn unrhyw amgylchiadau eraill, yw perchennog neu feistr y llestr sy'n eu glanio;

(**4**) 1990 p.16; diwygiwyd adran 5 gan baragraffau 8 a 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 ( p. 28).

ystyr "mewnforyn trydedd wlad" ("*third country import*") yw mewnforyn y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 54 o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007(**5**);

mae i "prosesu" yr ystyr a roddir i ("*processing*") ym Mhennod V o Adran B o Atodiad IV i Reoliad 852/2004;

ystyr "pysgod eigionol penodedig" ("*specified pelagic fish*") yw —

(a) penwaig neu ysagadan o'r rhywogaeth Clupea harengus;

(b) penwaig Mair o'r rhywogaeth Sardinia pilchardus;

(c) mecryll o'r rhywogaeth Scomber scombrus neu Scomber japonicus;

(ch) marchfecryll (*Trachurus* spp.);

(d) brwyniaid (*Engraulis* spp.);

(dd) picarelod o'r rhywogaeth Maena smaris; ac

(e) corbenwaig o'r rhywogaeth Sprattus sprattus;

mae'r term "rheolaethau swyddogol" ("*official controls*") i'w ddehongli'n unol â'r diffiniad o'r term "official control" ym mharagraff 1 o Erthygl 2 o Reoliad 882/2004;

mae i "rhoi gyntaf ar y farchnad" yr ystyr sydd i ("*first placing on the market*") yn Rheoliad 882/2004;

mae i "sefydliad" yr ystyr a roddir i ("*establishment*") ym mharagraff 1(c) o Erthygl 2 o Reoliad 852/2004;

ystyr "sefydliad prosesu" ("*processing establishment*") yw sefydliad lle y mae prosesu'n mynd rhagddo; ac

ystyr "trydedd wlad" ("*third country*"), ac eithrio yn yr ymadrodd "mewnforyn trydedd wlad" ("*third country import*") , yw unrhyw wlad neu diriogaeth, heblaw Kalaallit Nunaat (Greenland), nad yw'n Wladwriaeth AEE gyfan neu'n rhan o Wladwriaeth AEE.

(2) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cael eu neilltuo —

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 neu 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**6**), i awdurdod iechyd porthladd; neu

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**7**), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig,

mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd i'w ddehongli, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y maent wedi'u neilltuo felly iddo.

### Gwir gostau

**3.** At ddibenion y Rheoliadau hyn, gwir gostau arfer rheolaethau swyddogol yw cyfanswm costau'r eitemau a restrir yn Atodiad VI i Reoliad 882/2004 ac a dynnir yn uniongyrchol wrth arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004.

### Cyfwerthoedd y bunt â'r Ewro

**4.**—(1) Bernir bod unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at nifer penodedig o Ewros yn gyfeiriad at gyfwerth mewn punnoedd y nifer hwnnw wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

(**5**) O.S. 2007/376 (Cy.36), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1710 (Cy.148).
(**6**) 1984 p.22; amnewidwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ( p.16).
(**7**) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(2) Cyfrifir cyfwerth mewn punnoedd nifer penodedig o Ewros drwy luosi'r nifer hwnnw gan y gyfradd gyfnewid Ewro/punt a nodir ym mharagraff (3).

(3) Y gyfradd gyfnewid Ewro/punt yw —

(a) ar gyfer 2008, 1 Ewro = £0.67575; a

(b) ym mhob blwyddyn ddilynol, y gyfradd a gyhoeddir yng nghyfres C o Gyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd ar ddiwrnod gwaith cyntaf mis Medi y flwyddyn flaenorol neu, os na chyhoeddir cyfradd yn y gyfres ar y diwrnod hwnnw, y gyfradd gyntaf a gyhoeddir yn y gyfres ar ôl hynny.

### Cyfnod Cyfrifydda

**5.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, y cyfnod cyfrifydda yw un mis neu unrhyw gyfnod hwy nad yw'n fwy na deuddeng mis fel a benderfynir gan yr awdurdod bwyd perthnasol.

(2) Rhaid penderfynu'r cyfnod cyfrifydda, gan anelu at ostwng costau'r canlynol i swm rhesymol, o'i gymharu â'r taliadau y disgwylir iddynt ddod yn ddyledus, sef —

(a) gwneud datganiadau niferoedd; a

(b) casglu taliadau.

### Casglu taliadau

**6.** Pan osodir dyletswydd i dalu tâl o dan y Rheoliadau hyn ar y naill neu'r llall o ddau berson caiff yr awdurdod y mae'r tâl yn daladwy iddo ei gasglu —

(a) oddi wrth y ddau ohonynt ar y cyd; neu

(b) oddi wrth y naill neu'r llall ohonynt ar wahân.

### Cyfrifo, talu ac ad-dalu taliadau

**7.**—(1) Pan ddelo'n hysbys i'r awdurdod bwyd perthnasol bod taliad yn ddyledus iddo o dan y Rheoliadau hyn rhaid iddo —

(a) cyfrifo swm y taliad gan roi ystyriaeth i'r wybodaeth sydd ganddo yn ei feddiant; a

(b) rhoi hysbysiad o'r swm a gyfrifwyd felly i unrhyw berson y caniateir ei gasglu oddi wrtho.

(2) Os yw'r awdurdod bwyd perthnasol yn fodlon bod cyfrifiad sydd wedi'i wneud o dan baragraff (1) yn anghywir, rhaid iddo ail-gyfrifo'r taliad ac —

(a) pan fo'r swm cywir yn fwy na'r swm a gyfrifwyd o dan baragraff (1), rhaid iddo gasglu'r swm uchaf yn unol â'r paragraff hwnnw;

(b) pan fo'r swm cywir yn llai na'r swm a gyfrifwyd o dan y paragraff hwnnw ac na fo'r swm hwnnw wedi'i gasglu, rhaid iddo gasglu'r swm lleiaf yn unol â'r paragraff hwnnw; ac

(c) pan na fo swm yn daladwy neu pan fo'r tâl taladwy yn llai na'r swm a gyfrifwyd o dan y paragraff hwnnw, a'r tâl hwnnw wedi'i gasglu, rhaid iddo ad-dalu'r gwahaniaeth.

### Apelau

**8.**—(1) Caiff person apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod bwyd perthnasol sy'n gosod tâl o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Gwrandewir yr apêl gan lys ynadon ac mae adran 37(3), (5) a (6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys o ran y cyfryw apêl fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag apêl o dan adran 37(1)(c) o'r Ddeddf honno.

(3) Ar unrhyw apêl o'r fath caiff y llys —

(a) cadarnhau penderfyniad yr awdurdod bwyd perthnasol;

(b) penderfynu unrhyw dâl sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn; neu

(c) penderfynu nad oes tâl yn daladwy.

(4) Wrth ddisgwyl canlyniad yr apêl bydd swm gwreiddiol y tâl yn parhau'n daladwy, ond os bydd angen ailgyfrifo swm y tâl ar ôl penderfyniad y llys, bydd swm newydd y tâl yn effeithiol o'r dyddiad y gwnaed y tâl gwreiddiol a bydd y swm sy'n hafal i'r swm newydd hwnnw yn daladwy i'r awdurdod bwyd perthnasol.

(5) Os bydd y llys yn penderfynu bod tâl sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn yn llai na'r tâl sydd wedi'i dalu, rhaid i'r awdurdod bwyd perthnasol dalu'r gordal yn ôl i'r apelydd llwyddiannus.

**Taliadau sy'n daladwy i fwy nag un awdurdod bwyd**

**9.** Mewn unrhyw achos o ohirio arfer rheolaethau swyddogol a phan nad yr awdurdod bwyd perthnasol y mae'n ofynnol talu tâl iddo o dan y Rheoliadau hyn (“awdurdod B”) yw'r awdurdod bwyd sy'n gyfrifol am arfer rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 (“awdurdod A”), rhaid i awdurdod B anfon at awdurdod A swm hafal i unrhyw swm a ddaeth i law awdurdod B ac y gellir ei gyfeirio at reolaethau swyddogol a arferir gan awdurdod A.

# RHAN 2

## TALIADAU RHEOLAETHAU SWYDDOGOL AC EITHRIO TALIADAU AM FEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD

**Talu tâl glanio o ran rhoi gyntaf ar y farchnad neu werthu gyntaf mewn marchnad bysgod gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol**

**10.**—(1) Mae pob un o'r canlynol yn drafodyn y codir tâl amdano at ddibenion y rheoliad hwn a rheoliad 11—

(a) rhoi gyntaf ar y farchnad gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol;

(b) rhoi gyntaf ar y farchnad gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol;

(c) gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol; ac

(ch) gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), pan fydd yna drafodyn y codir tâl amdano at ddibenion y rheoliad hwn a rheoliad 11, rhaid i'r gwerthwr dalu'r tâl y cyfeirir ato ym mharagraffau (3) i (7) (“y tâl glanio”) i'r awdurdod bwyd perthnasol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), os rhoi gyntaf ar y farchnad gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol yw'r trafodyn y codir tâl amdano, cyfraniad yw'r tâl glanio tuag at y costau a dynnir wrth arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 a hwnnw'n dâl a gyfrifir yn ôl cyfradd o 1 Ewro y dunnell am y 50 tunnell gyntaf a 0.5 Ewro y dunnell am bob tunnell ychwanegol o gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol a roddwyd gyntaf ar y farchnad mewn mis calendr.

(4) Os gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol yw'r trafodyn y codir tâl amdano, cyfraniad yw'r tâl glanio tuag at y costau a dynnir wrth arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 a hwnnw'n dâl a gyfrifir yn ôl cyfradd o 1 Ewro y dunnell am y 50 tunnell gyntaf a 0.5 Ewro y dunnell am bob tunnell

ychwanegol o gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol a werthwyd gyntaf mewn marchnad bysgod mewn mis calendr.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7), os gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol yw'r trafodyn y codir tâl amdano, cyfraniad yw'r tâl glanio tuag at y costau a dynnir wrth after y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 a hwnnw'n dâl a gyfrifir yn ôl cyfradd o 0.5 Ewro y dunnell am y 50 tunnell gyntaf a 0.25 Ewro y dunnell am bob tunnell ychwanegol o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol a werthwyd gyntaf mewn mis calendr.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), os—

(a) gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol yw'r trafodyn y codir tâl amdano ; a

(b) nad yw'r cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol yn cael eu graddio o ran ffresni a/neu faint yn unol â Rheoliad 2406/96 neu os nad ydynt yn cael eu graddio'n ddigonol felly,

cyfraniad yw'r tâl glanio tuag at y costau a dynnir wrth arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 a hwnnw'n dâl a gyfrifir yn ôl cyfradd o 1 Ewro y dunnell am y 50 tunnell gyntaf a 0.5 Ewro y dunnell am bob tunnell ychwanegol o gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol a werthwyd gyntaf mewn mis calendr.

(7) O ran unrhyw lwyth o bysgod eigionol penodedig sy'n gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol, rhaid i'r tâl glanio beidio â bod yn fwy na 50 Ewro.

(8) Pan fo gwir gostau arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 yn llai na'r tâl glanio, rhaid i'r gwerthwr dalu swm hafal i'r costau hynny i'r awdurdod bwyd perthnasol, yn lle'r tâl glanio.

**Datganiadau niferoedd a chofnodion sy'n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol**

**11.**—(1) Cyn pen 7 niwrnod ar ôl diwedd pob cyfnod cyfrifydda, rhaid i'r gwerthwr roi datganiad niferoedd ysgrifenedig i'r awdurdod bwyd perthnasol y mae'r tâl glanio'n daladwy iddo o ran cyfanswm y trafodion y codir tâl amdanynt ac y mae'r gwerthwr wedi ymwneud â hwy yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r datganiad niferoedd y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gynnwys yr wybodaeth ganlynol —

(a) y cyfnod cyfrifydda y mae a wnelo'r datganiad niferoedd ag ef;

(b) y lle a'r dyddiad y caiff y cynhyrchion pysgodfeydd y mae a wnelo'r datganiad â hwy eu glanio;

(c) y lle a'r dyddiad y caiff y cynhyrchion hynny eu rhoi gyntaf ar y farchnad neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod, yn ôl y digwydd; ac

(ch) ar gyfer glaniadau o gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol a glaniadau o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol ac eithrio pysgod eigionol penodedig —

(i) enw pob llestr a nifer y llwythi sy'n cael eu glanio ohono,

(ii) cyfanswm pwysau'r llwythi sy'n cael eu glanio gan bob llestr ac nad ydynt yn fwy na 50 tunnell ynghyd â'r 50 tunnell gyntaf o lwythi y mae eu pwysau yn fwy na'r swm hwnnw; a

(iii) cyfanswm pwysau'r llwythi sy'n llai na'r pwysau a gyfrifir o dan baragraff (ii);

(d) ar gyfer glaniadau o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol ac sy'n bysgod eigionol penodedig —

(i) enw pob llestr a nifer y llwythi sy'n cael eu glanio ohono, a

(ii) cyfanswm pwysau'r llwythi sy'n cael eu glanio gan bob llestr ac nad ydynt yn fwy na 50 tunnell ynghyd â'r 50 tunnell gyntaf o lwythi y mae eu pwysau yn fwy na'r swm hwnnw;

(dd) hysbysiad o unrhyw swm a dalwyd yn rhinwedd paragraff (4) o reoliad 10 ac a dalwyd mewn cysylltiad —

(i) â llwythi o bysgod nad ydynt ond yn bysgod heblaw pysgod eigionol penodedig, neu

(ii) â llwythi o bysgod eigionol penodedig yn unig,

gan nodi'r amgylchiadau a arweiniodd at dalu'r swm hwnnw;

(e) mewn perthynas â llwythi o gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol —

(i) cyfanswm pwysau'r holl gynhyrchion pysgodfeydd perthnasol a gaiff eu glanio, a

(ii) cyfanswm swm y tâl sy'n daladwy o dan reoliad 10 o ran y cynhyrchion hynny; ac

(f) swm y tâl glanio.

(3) Yn ystod y cyfnod o 1 flwyddyn yn dechrau ar y diwrnod y mae gwerthwr yn gwneud datganiad niferoedd o dan y rheoliad hwn —

(a) caiff yr awdurdod bwyd perthnasol y rhoddwyd y datganiad iddo ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwr ddarparu gwybodaeth ar wahân o'r math sy'n ofynnol gan baragraff (2) o ran pob trafodyn a gynhwysir ynddo; a

(b) rhaid i'r gwerthwr gadw cofnodion sy'n ddigonol i alluogi'r gwerthwr i gyflenwi unrhyw wybodaeth o'r fath.

(4) Bydd unrhyw werthwr a fydd heb esgus rhesymol —

(a) yn methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu (3)(b); neu

(b) yn methu â chydymffurfio â gofyniad a wneir o dan baragraff 3(a),

yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Tâl o ran sefydliadau prosesu**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berchennog neu weithredydd sefydliad prosesu dalu'r tâl y cyfeirir ato ym mharagraff (2) ("y tâl sefydliad prosesu") i'r awdurdod bwyd perthnasol.

(2) Cyfraniad o 0.5 Ewro y dunnell o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n dod i sefydliad at ddiben prosesu fydd y tâl sefydliad prosesu a hwnnw'n gyfraniad at y costau a dynnir gan yr awdurdod bwyd perthnasol pan fydd yn arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004.

(3) Pan fo gwir gostau arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 yn llai na'r tâl sefydliad prosesu, rhaid i'r perchennog neu'r gweithredydd dalu swm sy'n hafal i'r costau hynny i'r awdurdod bwyd perthnasol, yn lle'r tâl sefydliad prosesu.

**Datganiadau niferoedd a chofnodion sy'n ymwneud â sefydliadau prosesu**

**13.**—(1) Cyn pen 7 niwrnod ar ôl diwedd pob cyfnod cyfrifydda, rhaid i'r perchennog neu'r gweithredydd sy'n gyfrifol am dalu'r tâl sefydliad prosesu wneud datganiad niferoedd ysgrifenedig o ran y tâl hwnnw a'i roi i'r awdurdod bwyd perthnasol y mae'r tâl hwnnw'n daladwy iddo o ran y cynhyrchion pysgodfeydd sydd wedi dod i'r sefydliad dan sylw yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i ddatganiad niferoedd y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn —

(a) y cyfnod cyfrifydda y mae a wnelo'r datganiad niferoedd ag ef;

(b) pwysau'r cynhyrchion pysgodfeydd sy'n dod i'r sefydliad; ac

(c) swm y tâl sy'n daladwy o dan reoliad 12.

(3) Yn ystod y cyfnod o un flwyddyn yn dechrau ar y diwrnod y mae perchennog neu weithredydd yn gwneud datganiad niferoedd o dan y rheoliad hwn —

(a) caiff yr awdurdod bwyd perthnasol y rhoddwyd y datganiad niferoedd iddo ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r gweithredydd ddarparu gwybodaeth ar wahân o'r math sy'n ofynnol gan baragraff (2) o ran pob swp o gynhyrchion pysgodfeydd a gynhwysir ynddo; a

(b) rhaid i'r perchennog neu'r gweithredydd gadw cofnodion sy'n ddigonol i'w alluogi i gyflenwi unrhyw wybodaeth o'r fath.

(4) Bydd unrhyw berchennog neu weithredydd sydd heb esgus rhesymol —

(a) yn methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu (3)(b); neu

(b) yn methu â chydymffurfio â gofyniad o dan baragraff (3)(a),

yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Dirymu**

**14.** Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006(**8**).

*G. Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

5 Rhagfyr 2007

(**8**) O.S. 2006/3344 (Cy.305).

# YR ATODLEN

Rheoliad 2

## DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH GYMUNEDOL

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*") yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu cyfarwyddebau penodol ynghylch hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl, ac yn diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(**9**);

ystyr "Rheoliad 2406/96" ("*Regulation 2406/96*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2406/96 sy'n gosod safonau marchnata cyffredinol ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd penodol(**10**);

ystyr "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd(**11**) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005;

ystyr "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**12**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005;

ystyr "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(**13**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2075/2005 a Rheoliad 2076/2005;

ystyr "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a arferir i sicrhau bod cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yn cael ei wirio(**14**) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005;

ystyr "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o gigoedd ac wyau penodol i'r Ffindir ac i Sweden(**15**);

ystyr "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(**16**);

---

(**9**) OJ Rhif L157, 30.4.2004, t.33. Ceir testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L195, 2.6.2004, t.12).

(**10**) OJ Rhif L334, 23.12.1996, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 790/2005 sy'n diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2406/96 sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd penodol (OJ Rhif L132, 26.5.2005, t.15).

(**11**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1. Ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.3), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204 4.8.2007, t.26).

(**12**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55. Ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204 4.8.2007, t.26). Diwygiwyd Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1243/2007 sy'n diwygio Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (OJ Rhif L281, 25.10.2007, t.8).

(**13**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.206. Ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83) y dylid ei ddarllen gyda Choridendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26). Diwygiwyd Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 sy'n addasu Rheoliadau a Phenderfyniadau penodol ym meysydd symud rhydd ar nwyddau, rhyddid i bobl symud, cyfraith cwmnïau, polisi cystadlu, amaethyddiaeth (gan gynnwys deddfwriaeth filfeddygol a ffytoiechydol), polisi trafnidiaeth, trethi, ystadegau, ynni, yr amgylchedd, cydweithredu ym meysydd cyfiawnder a materion cartref, undeb tollau, cysylltiadau allanol, polisïau tramor a diogelwch cyffredin a sefydliadau, oherwydd ymaelodaeth Bwlgaria a Romania (OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.1).

(**14**) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1. Ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204 4.8.2007, t.29). Diwygiwyd Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006.

(**15**) OJ Rhif L271, 15.10.2005, t.17.

(**16**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.1, fel y'i darllenir gyda'r corigenda yn OJ Rhif L278, 10.10.2006, t.32 ac OJ Rhif L283, 14.10.2006, t.62.

ystyr “Rheoliad 2074/2005” (“*Regulation 2074/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**17**);

ystyr “Rheoliad 2075/2005” (“*Regulation 2075/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer Trichinella mewn cig(**18**); ac

ystyr “Rheoliad 2076/2005” (“*Regulation 2076/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 sy'n gosod trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**19**).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru. Maent yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/3344 (Cy.305)).

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a arferir i sicrhau bod cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, ac â rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1; ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 bellach mewn Corigendwm, OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1, y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach, OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.29) yn cael ei wirio, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n ei gwneud yn ofynnol casglu ffioedd sy'n cynnwys costau arfer rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd o dan Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl (OJ L139, 30.4.2004, t.206; ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 bellach mewn Corigendwm, OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83, y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn —

(a) yn dweud beth yw gwir gostau arfer rheolaethau swyddogol at ddibenion y Rheoliadau (rheoliad 3);

---

(**17**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.27, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1244/2007 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran gweithredu mesurau ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer arolygu cig (OJ Rhif L281 25.10.2007, t.12).

(**18**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1245/2007 sy'n diwygio Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 2075/2005 o ran defnyddio pepsin hylif i ganfod Trichinella mewn cig (OJ Rhif L281, 25.10.2007, t.19).

(**19**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.83, fel y'i diwygiwyd diwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1246/2007, sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2076/2005 o ran estyniad y cyfnod trosiannol a roddir i weithredwyr busnes bwyd sy'n mewnforio olew pysgod a fwriedir ar gyfer ei fwyta gan bobl (OJ Rhif L281, 25.10.2007, t.21).

(b) yn darparu'r cyfraddau ar gyfer cyfrifo beth yw cyfwerth mewn punnoedd unrhyw symiau a bennir mewn Ewros yn y Rheoliadau (rheoliad 4);

(c) yn rhagnodi sut y mae hyd “cyfnod cyfrifydda” i'w benderfynu at ddibenion y Rheoliadau (rheoliad 5);

(ch) yn darparu, pan osodir dyletswydd ar fwy nag un person i dalu taliadau o dan y Rheoliadau, y caniateir ei gorfodi ar y cyfryw bersonau ar y cyd neu ar wahân (rheoliad 6);

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau y mae taliadau'n daladwy iddynt o dan y Rheoliadau gyfrifo'r taliadau, eu hailgyfrifo os gwneir camgymeriad a hysbysu'r rhai sy'n atebol am dalu beth yw'r symiau dyledus (rheoliad 7);

(dd) yn darparu ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau sy'n gosod taliadau o dan y Rheoliadau ac yn pennu gofynion ynghylch cynnal y cyfryw apelau a'u penderfynu (rheoliad 8);

(e) yn darparu ar gyfer talu taliadau gan un awdurdod bwyd i un arall pan fo taliadau'n daladwy i fwy nag un awdurdod (diffinnir y term “awdurdod bwyd” yn rheoliad 2) (rheoliad 9);

(f) yn ei gwneud yn ofynnol i swm penodedig gael ei dalu i'r awdurdod bwyd perthnasol gan werthwyr cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol mewn perthynas â rhoi gyntaf ar y farchnad y cyfryw gynhyrchion neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod (diffinnir y termau “awdurdod bwyd perthnasol”, “gwerthwr”, “cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol”, “cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol”, “rhoi gyntaf ar y farchnad” a “gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod” yn rheoliad 2) (rheoliad 10);

(ff) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwyr hynny roi i'r awdurdod bwyd perthnasol ddatganiadau niferoedd o ran cyfanswm y trafodion y mae taliadau'n daladwy arnynt ganddynt o dan reoliad 10, yn pennu'r wybodaeth i'w chynnwys yn y cyfryw ddatganiadau, yn caniatáu i'r awdurdod bwyd perthnasol ei gwneud yn ofynnol i werthwyr cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol roi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r cyfryw drafodion, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw cofnodion sy'n ddigonol i'w galluogi i roi'r gyfryw wybodaeth ac yn ei gwneud yn dramgwydd diannod i fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath (rheoliad 11);

(g) yn ei gwneud yn ofynnol i swm penodedig gael ei dalu i'r awdurdod bwyd perthnasol gan berchenogion neu weithredwyr sefydliadau prosesu mewn perthynas â chynhyrchion pysgodfeydd sy'n dod i'r sefydliad dan sylw (diffinnir y termau “prosesu” a “sefydliad prosesu” yn rheoliad 2) (rheoliad 12); ac

(ng) yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion a gweithredwyr sefydliadau prosesu roi i'r awdurdod bwyd perthnasol ddatganiadau niferoedd o ran cynhyrchion pysgodfeydd y mae taliadau'n daladwy arnynt o dan reoliad 12, yn pennu'r wybodaeth i'w chynnwys yn y cyfryw ddatganiadau, yn caniatáu i'r awdurdod bwyd perthnasol ei gwneud yn ofynnol i'r perchenogion a'r gweithredwyr hynny roi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chynhyrchion o'r fath, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw cofnodion sy'n ddigonol i'w galluogi i roi gwybodaeth o'r fath ac yn ei gwneud yn dramgwydd diannod i fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath (rheoliad 13).

**4.** Mae asesiad effaith reoleiddiol llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei gael ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.